Ymholiad ynghylch yr adroddiad ar Ofal Heb ei Drefnu
2 Hydref 2013

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 26 Medi 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a nodwyd yn eich neges e-bost dyddiedig 20 Medi 2013, yn gofyn am y canlynol:

Gan gyfeirio at yr adroddiad diweddar ar Ofal Heb ei Drefnu, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, hoffwn wneud cais am wybodaeth am y Crynodeb o Ganfyddiadau (tudalen 4 o'r Crynodeb Gweithredol). Mae paragraff 17 yn canolbwyntio ar y problemau yn ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo cleifion rhwng staff ambiwlans a staff ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac mae'n awgrymu nad oes fawr ddim wedi newid ers 2009. Hoffwn wybod beth oedd y sefyllfa o ran oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn dau ysbyty penodol - Maelor Wrecsam a Glan Clwyd - yn 2009 a hefyd yn ystod chwarter cyntaf 2013.

Nid oes gennym wybodaeth gofnodedig sy'n cyfateb yn union i ddisgrifiad eich cais. Fodd bynnag, mae gennym y ddogfen atodedig sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2012, ac yn nodi'r perfformiad misol yn erbyn y targed trosglwyddo o bymtheg munud yn y ddau ysbyty y cyfeiriwch atynt. Mae ein hadroddiad diweddar ar Ofal Heb ei Drefnu yn cynnwys data mwy diweddar ar gyfer Cymru gyfan, ond nid oes gennym ddata ar gyfer ysbytai unigol yn 2013.

Efallai yr hoffech wneud cais am ddata ar gyfer chwarter cyntaf 2013 gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Gweler y ddolen ganlynol am fanylion cyswllt: http://www.was-tr.wales.nhs.uk/Default.aspx?pageId=19&lan=cy

Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad canlynol am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ddiddordeb i chi hefyd, ond dylech nodi bod y data yn yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2010 a mis Tachwedd 2011:
http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/558A2012_Betsi_Cadwaladr_Uni_HB_Transforming_unscheduled_care_chronic_conditions_management.pdf

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips

Month	Glan Clwyd Hosp Bodelwyddan	Maelor General Hosp Wrecsam
Apr-2009	73.96%	84.25%
May-2009	84.10%	79.20%
Jun-2009	90.01%	91.09%
Jul-2009	88.39%	84.17%
Aug-2009	87.91%	91.59%
Sep-2009	83.03%	93.19%
Oct-2009	83.85%	88.83%
Nov-2009	82.26%	86.16%
Dec-2009	79.29%	82.69%
Jan-2010	78.05%	77.78%
Feb-2010	72.58%	79.98%
Mar-2010	68.98%	72.20%
Apr-2010	64.41%	83.65%
May-2010	80.83%	79.78%
Jun-2010	78.74%	86.65%
Jul-2010	79.81%	86.52%
Aug-2010	79.92%	87.18%
Sep-2010	75.45%	86.37%
Oct-2010	77.00%	82.91%
Nov-2010	73.92%	84.43%
Dec-2010	57.13%	70.30%
Jan-2011	63.54%	75.66%
Feb-2011	65.08%	68.25%
Mar-2011	58.49%	68.44%
Apr-11	61.12%	67.27%
May-11	61.91%	76.87%
Jun-11	59.18%	70.88%
Jul-11	62.46%	74.68%
Aug-11	55.94%	78.96%
Sep-11	48.22%	79.04%
Oct-11	50.41%	77.41%
Nov-11	50.85%	79.17%
Dec-11	51.60%	72.15%
Jan-12	58.61%	72.87%
Feb-12	52.24%	62.28%
Mar-12	49.72%	62.08%



These data show the percentage of patient handovers that were completed within 15 minutes.